Llywodraeth y DU

# Taliad Anabledd Costau Byw

Hawdd i'w Ddarllen




Help i Gartrefi

Ein cyfeirnod: **COL2WER** 05/23

# Cynnwys


1




**Cyflwyniad**

Tudalen 3

2



**Pobl sy'n cael budd-daliadau incwm isel**

Tudalen 4

3

**Taliadau eraill i bob cartref**

Tudalen 8

# 1 Cyflwyniad





O 20 Mehefin 2023, bydd 6 miliwn o bobl yn y DU sy'n cael budd-daliadau anabledd penodol yn cael taliad untro o £150 yn awtomatig.

Rydym yn galw hwn yn Daliad Anabledd Costau Byw.



Mae'r taliad hwn i helpu gyda chostau byw cynyddol a chostau uwch sy'n gysylltiedig ag anabledd, fel anghenion gofal a symudedd.




Mae'r daflen hawdd i'w darllen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth am Daliad Anabledd Cost Byw.


Am fwy o wyodaeth ewch i [gov.uk/guidance/cost-of-living-payment.cy](gov.uk/guidance/cost-of-living-payment.cy)

# 2 Pobl sy’n cael budd-daliadau incwm isel




I bobl anabl sydd ar incwm isel, mae taliad o **£150 yn ychwanegol** at daliadau Costau Byw eraill, fel:

- Talwyd £301 yn awtomatig ym mis Mai
- Telir £300 yn yr Hydref.




I gael y Taliad Anabledd Costau Byw, rhaid i berson fod wedi cael un o’r budd-daliadau cymhwyso canlynol:

- Lwfans Gweini
- Lwfans Gweini Cyson




- Lwfans Byw i’r Anabl i oedolion
- Lwfans Byw i’r Anabl i blant
- Taliad Annibyniaeth Personol



- Taliad Anabledd Oedolion (yn yr Alban)
- Taliad Anabledd Plant (yn yr Alban)




- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel.





**1 Ebrill 2023**

Rhaid bod eich budd-dal cymhwyso wedi bod yn cael ei dalu ar **1 Ebrill 2023**.




Efallai eich bod yn aros am benderfyniad am un o'r budd-daliadau cymhwyso hyn.




**1 Ebrill 2023**

Os yw'r penderfyniad hwn yn cynnwys dyfarniad ar gyfer 1 Ebrill 2023, bydd y Taliad Anabledd Costau Byw yn cael ei dalu'n awtomatig.





**20 Mehefin 2023**

Bydd y taliad anabledd yn dechrau ar **20 Mehefin 2023** a gall gymryd ychydig wythnosau cyn i chi ei weld yn eich cyfrif.

Bydd y rhan fwyaf o'r taliadau'n cael eu gwneud erbyn 4 Gorffennaf 2023.




Bydd y rhai sy'n gymwys am y taliad anabledd yn cael eu £150 yn yr un ffordd ag y maent yn cael eu taliadau budd-dal rheolaidd.




Bydd y Taliad Anabledd Costau Byw yn cael ei asesu ar sail unigol.



Os oes gan gartref nifer o breswylwyr sy'n anabl, bydd pob person cymwys yn cael Taliad Anabledd Costau Byw.

# 3 Taliadau eraill i bob cartref



Mae mathau penodol o daliadau yn dibynnu ar eich amgylchiadau, fel:

- Pobl sydd ar fudd-daliadau prawf modd
- Pensiynwyr
- Pobl sydd ar fudd-daliadau anabledd.




I wirio a ydych yn gymwys, ewch i: www.gov.uk/cost-of-living

Am fwy o wybodaeth, ewch i gov.uk/guidance/cost-of-living-payment.cy